Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

**2 Gorffennaf 2021**

**Ymateb Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys i Achos Pryder Cyflymedig PEEL mewn perthynas ag Unplygrwydd Data Trosedd**

Fel Comisiynydd, yr oeddwn yn ymwybodol o rai o anawsterau'r Heddlu o ran cydymffurfiaeth â chofnodi troseddau, fodd bynnag, yr oeddwn yn rhwystredig â thôn y cyhoeddusrwydd gan yr Arolygiaeth, a oedd yn awgrymu bod miloedd o ddioddefwyr heb eu diogelu. Nid yw hyn yn gywir nac yn ddefnyddiol ar gyfer cynnal ffydd a hyder y cyhoedd yn ein gwasanaeth heddlu.

Ers 2018, yr wyf wedi fy sicrhau gan y Prif Gwnstabl a Phrif Swyddogion yr Heddlu bod gwelliannau'n cael eu gwneud mewn perthynas â chofnodi troseddau. Gan hynny, yr wyf yn siomedig ac yn bryderus bod AHGTAEM wedi cadarnhau bod methiannau sylweddol o hyd, er waethaf fy ngwaith craffu dros y blynyddoedd. Fodd bynnag, yr wyf yn falch bod gwelliannau eisoes yn cael eu gwneud ac rwyf wedi fy sicrhau bod dioddefwyr wedi'u cefnogi a'u diogelu yn y rhan fwyaf o achosion.

Mewn cyfarfod o'r Bwrdd Plismona ar 20 Mai 2021, derbyniais adroddiad gan y Prif Gwnstabl Dros Dro yn nodi camau gweithredu'r Heddlu ers y cyfnod archwilio.

O fewn yr adroddiad, cydnabu'r Prif Gwnstabl Dros Dro nad oedd yr Heddlu bob amser wedi cymryd y camau priodol a rhagweithiol ar gyfer gwella ei gydymffurfiaeth mewn perthynas ag unplygrwydd data trosedd, a bod angen newid diwylliannol yn hyn o beth drwy'r sefydliad.

O'r herwydd, datblygwyd cynllun gweithredu sy'n esblygu, sy'n canolbwyntio ar:

- sicrhau ansawdd ac archwilio;
- dysgu a datblygu;
- cyfathrebu;
- llywodraethu; a
- gwelliannau i brosesau.

Ers hynny, mae fy swyddfa wedi adolygu'r cynllun gweithredu hwn i'm sicrhau ei fod yn mynd i'r afael â phob elfen o'r Achos Pryder:

| Argymhellion o'r Achos Pryder Cyflymedig | Camau gweithredu cyfatebol o fewn cynllun gweithredu Unplygrwydd Data Trosedd yr Heddlu |
|---|---|
| Cymryd camau i nodi a mynd i'r afael â bylchau yn ei systemau a'i brosesau ar gyfer nodi a chofnodi pob adroddiad am drosedd (gan roi sylw arbennig i droseddau treisgar sy'n | • Archwiliad 100% o Ymddygiad Gwrthgymdeithasol (Personol), Troseddau Ymddygiadol (Anhrefn, Aflonyddu ac Ymddygiad Rheolaethol a Gorfodol), 'N100' a Throseddau Casineb |

| | |
|---|---|
| gysylltiedig â cham-drin domestig) | • Cydnabod yr angen ar gyfer 'cau'r ddolen' i ddarparu a gweithredu ar adborth unigol a thematig<br>• Diwygio prosesau cofnodi troseddau |
| Darparu hyfforddiant penodol ar gyfer pob goruchwylydd, swyddog ac aelod staff sy'n gweithio mewn rôl cofnodi troseddau. Dylai'r hyfforddiant hwn gynnwys y gofynion cofnodi troseddau ar gyfer troseddau treisgar, gan gynnwys cam-drin domestig ac Ymddygiad Gwrthgymdeithasol (personol) | • Cyflwyniadau gan Gofrestrydd Troseddau'r Heddlu ar gyfer: Y Swyddfa Cofnodi Troseddau, Rhingylliaid ac Arolygwyr sydd newydd eu dyrchafu, a'r Uned Asesu Risg Eilaidd<br>• Cyfleoedd wythnosol i sgwrsio gyda Chofrestrydd Troseddau'r Heddlu<br>• Ystyried buddsoddi ym mhecyn dysgu ar-lein NCALT Heddlu Swydd Lincoln |
| Rhoi trefniadau mewn grym ar gyfer sicrhau y gweithredir goruchwyliaeth digonol ar gyfer penderfyniadau ynghylch cofnodi troseddau gan swyddogion a staff | • Cyfarfodydd is-grŵp a Grŵp Defnyddwyr Cofnodi Troseddau Strategol misol<br>• Nodi Prif Arolygydd i fod yn arweinydd Tactegol Unplygrwydd Data Trosedd er mwyn cefnogi Cofrestrydd Troseddau'r Heddlu |
| | • Cynllunio i benodi pwynt cyswllt sengl dysgu a datblygu i arwain ar adborth a dysgu mewn perthynas ag Unplygrwydd Data Trosedd, i ymgysylltu â'r arweinydd Tactegol Unplygrwydd Data Trosedd |
| | • Disgwylir i bob Uned Reoli Sylfaenol adolygu ei rhestr digwyddiadau yn ei Chyfarfodydd Rheoli Dyddiol a phennu negeseuon sy'n agosáu at gydymffurfiaeth 24 awr |

Cynrychiolir fy swyddfa yng nghyfarfod pythefnosol y grŵp Aur cofnodi troseddau, pennu digwyddiadau a goruchwylio, a gadeirir gan y Prif Gwnstabl Dros Dro, a chyfarfod misol y Grŵp Defnyddwyr Cofnodi Troseddau Strategol, lle mae'r Prif Gwnstabl Cynorthwyol Dros Dro'n goruchwylio cynnydd yn erbyn y cynllun gweithredu Unplygrwydd Data Trosedd. Mae'r un cynrychiolydd hefyd yn mynd i gyfarfodydd grŵp Aur misol y prosiect Pen i Ben, sy'n canolbwyntio ar roi dioddefwyr wrth galon pob dim drwy ddeall galw, gwella prosesau a dylanwadu ar ddiwylliant i'n galluogi i fod yn effeithiol ac effeithlon.

Disgwylir y bydd y prosiect hwn yn cyfrannu at unplygrwydd data trosedd gwell yn ogystal â phrofiad gwell ar gyfer dioddefwyr. Mae fy staff yn parhau i gydweithio â Heddlu Dyfed-Powys er mwyn cyflwyno craffu priodol a chymesur er mwyn rhoi'r sicrwydd gofynnol i breswylwyr ardal Dyfed-Powys ynghylch camau'r Heddlu ar gyfer gwella.